

Y Bil Masnach:

Ail adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig

Mawrth 2019

Crynodeb

Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar y Bil Masnach flwyddyn yn ôl, ym mis Mawrth 2018.

Gwnaed newidiadau i'r Bil yn ystod ei ystyriaeth yn y Senedd, newidiadau sydd wedi arwain at gyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ein barn ar y Memorandwm Atodol a'r graddau yr ymdriniwyd â'r casgliadau a'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad cyntaf.

Rydym yn dod i ddeg casgliad sydd wedi'u hanelu at lywio dadl y Cynulliad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig, y bwriedir ei chynnal ar hyn o bryd ar 12 Mawrth 2019.



1. Cyflwyniad

Ein gwaith blaenorol

1. Rydym eisoes wedi cyhoeddi adroddiad ar y Bil Masnach, ym mis Mawrth 2018, sef *Y Bil Masnach: Adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig*.¹ Er mwyn eglurder, cyfeiriwn ato fel ein “hadroddiad cyntaf” o hyn ymlaen.

2. Daeth yr adroddiad cyntaf i'r casgliad a ganlyn:

“Ni allwn argymhell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi ei gydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru.”

3. Roedd ein casgliad yn seiliedig ar bryderon ynghylch y pwerau i'w rhoi i Weinidogion Cymru, rhoi pwerau cydredol i Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig, a diogelu'r statudau datganoledig.

4. Ni wnaethom ddod i gasgliadau yn seiliedig ar amcanion polisi penodol y Bil.

Ystyriaethau ar hyn o bryd

5. Yn dilyn bwch yn ystod taith y Bil drwy'r broses Seneddol yn San Steffan, dechreuodd y pwyllgor o Dŷ'r Arglwyddi drafod y Bil ar 21 Ionawr 2019.

6. Mewn ymateb i ddiwygiadau a wnaed i'r Bil, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 14 Chwefror 2019.²

7. Rhagwelir y bydd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei gyflwyno i'w drafod ddydd Mawrth 12 Mawrth 2019.

8. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i lywio'r drafodaeth hon.

¹ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Y Bil Masnach: Adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig*, Mawrth 2018

² Llywodraeth Cymru, *Bil Masnach: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (memorandwm rhif 2)*, 14 Chwefror 2019

2. Darpariaethau'r Bil sydd angen cydsyniad deddfwriaethol

9. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (y Memorandwm Atodol) yn nodi:

“Rydym yn ystyried ei bod yn ofynnol rhoi cydsyniad ar gyfer Rhan 1 o'r Bil a'i atodlenni cysylltiedig ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.” Mae'r cymalau a ganlyn y ceisir cydsyniad ar eu cyfer eisoes wedi'u nodi'n fanwl yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf [...]: Rhan 1, cymalau 1 i 4 ac atodlenni 1, 2 a 3.”³

CASGLIADAU

Casgliad 1. Rydym yn cytuno â'r datganiad yn y Memorandwm Atodol ei bod yn ofynnol cael cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gyfer Rhan 1 o'r Bil a'i Atodlenni cysylltiedig, h.y. cymalau 1 i 8 ac Atodlenni 1, 2 a 3, ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Casgliad 2. Gwnaed diwygiadau sy'n berthnasol i gymhwysedd y Cynulliad i'r darpariaethau hyn ers i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol gael ei osod. At hynny, mae cymal 6, sy'n gymal newydd, wedi cael ei fewnosod yn Rhan 1 o'r Bil ers i'r Memorandwm gwreiddiol gael ei osod, ac rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y cymal hwn.

³ Llywodraeth Cymru, Bil Masnach: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (memorandwm rhif 2), 14 Chwefror 2019

3. A roddwyd sylw i'r pryderon a godwyd gennym yn ein hadroddiad cyntaf?

Er bod diwygiadau i'r Bil wedi mynd i'r afael â rhai o'n pryderon, nid ydynt wedi mynd i'r afael â phob un ohonynt.

Mae rhai o'n pryderon wedi gwaethygu o ganlyniad i ddefnyddio pwerau cydredol o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018.

3.1. Cwmpas pwerau Gweinidogol

10. Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad a ganlyn:

“Mae'r pwerau a gynigir i Weinidogion Cymru wedi'u fframio'n rhy eang. Byddai'n well gennym eu gweld yn cael eu diwygio i'w cyfyngu i wneud darpariaeth sydd 'yn hanfodol' yn unig.”⁴

11. Roedd hyn yn gyson â'n safbwynt mewn perthynas â Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn ystod ei thaith drwy'r Senedd.⁵

12. Ni dderbyniwyd ein sefyllfa mewn perthynas â'r Ddeddf Ymadael, ac nid yw diwygiadau i'r Bil wedi culhau cwmpas y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru.

CASGLIADAU

Casgliad 3. Nid yw ein pryder ynghylch cwmpas y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru wedi cael sylw.

3.2. Pwerau cydredol

13. Yn ein hadroddiad cyntaf, nodwyd y byddai'n well gennym i'r holl bwerau sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig Cymru gael eu rhoi i Weinidogion

⁴ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. *Y Bil Masnach: Adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig*. Mawrth 2018

⁵ *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* c.16

Cymru yn unig, gan gydnabod nad oedd Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU yn cefnogi'r safbwynt hwn.⁶

14. Roedd hyn yn cyfateb i'n safbwynt ar Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018.⁷

15. Daethom i'r casgliad a ganlyn, os bydd pwerau cydredol yn parhau i fod yn rhan o'r Bil:

“Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bwerau a ddelir yn gydamserol rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion gael cydsyniad. Er bod cynnig Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol cael cydsyniad gweithredol ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn yn well na'r absenoldeb o drefniadau cydsyniad ar hyn o bryd, byddai'n well gennym weld diwygio'r Bil Masnach i'w gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Cynulliad hefyd i ddefnyddio'r pwerau hyn.”⁸

16. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, yn ei Memorandwm Atodol:

“Erbyn hyn, mae Senedd y DU wedi ymrwymo fel a ganlyn:

- Ni fyddai Gweinidogion Llywodraeth y DU fel arfer yn defnyddio'r pwerau mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn unol â'r dull a gymerwyd yn Neddf yr UE (Ymadael).
- Ni fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau i gyflwyno polisi newydd mewn meysydd datganoledig ac effeithlonrwydd gweinyddol fydd yn sbarduno'r gwaith yn bennaf.”⁹

17. Nodwn fod yr ymrwymadau hyn yn anstatudol ac felly nid ydynt yn rhwymol yn gyfreithiol. At hynny, nid oes ymrwymiad i geisio cydsyniad y Cynulliad; dim ond cydsyniad Gweinidogion Cymru.

18. Mae gennym bryder ehangach hefyd o ran sut y mae'r Bil yn creu pwerau cydredol newydd i Weinidogion y DU.

⁶ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Y Bil Masnach: Adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig*, Mawrth 2018

⁷ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Chwe amcan ar gyfer gwella'r Bil*, Hydref 2018

⁸ Ibid

⁹ Llywodraeth Cymru, *Bil Masnach: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (memorandwm rhif 2)*, 14 Chwefror 2019

- 19.** Ers i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol gael ei osod, mae'r setliad datganoli newydd i Gymru, a nodir yn Neddf Cymru 2017,¹⁰ wedi dod i rym.
- 20.** O dan y setliad hwn, mae'r Cynulliad wedi'i gyfyngu rhag dileu neu addasu pwerau Gweinidogion y DU mewn meysydd polisi datganoledig, lle mae'r pwerau hynny yn cyd-fynd â phŵer Gweinidogion Cymru (neu lle mae angen cydsyniad ar Weinidogion Cymru gan Weinidogion y DU, neu pan fo angen iddynt ymgynghori â hwy, cyn y gallant arfer y pŵer).¹¹
- 21.** Felly, bob tro y mae pŵer cydredol newydd yn cael ei greu (neu pan fo pŵer Gweinidogion Cymru yn dod yn destun cydsyniad neu'n destun ymgynghoriad â Gweinidogion y DU), bydd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y dyfodol yn cael ei gyfyngu.
- 22.** Nid yw ymrwymadau anstatudol megis y rhai y cyfeirir atynt uchod yn dileu'r cyfyngiad hwn ar gymhwysedd y Cynulliad yn y dyfodol.
- 23.** Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn mynegi pryder pellach, ac adroddodd yn ddiweddar iawn ei farn bod Llywodraeth y DU wedi torri ei hymrwymiad presennol i beidio â defnyddio pwerau tebyg o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i gyflwyno polisi newydd mewn meysydd datganoledig.¹²
- 24.** Fel pwyllgor, rydym wedi mynegi pryderon mewn perthynas â'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer Brexit. O ran yr adroddiad hwn, rydym yn pryderu bod y pwerau cydredol a ddarparwyd o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi'u defnyddio gan Lywodraeth y DU (gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru) i wneud cywiriadau i gyfraith yr UE mewn meysydd datganoledig i'r fath graddau nes bod rôl y Cynulliad o ran deddfu ar gyfer Brexit wedi lleihau.

CASGLIADAU

Casgliad 4. Wrth i ni ystyried y newid i'r setliad datganoli, barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'n pryderon ein hunain ynghylch

¹⁰ [Deddf Cymru 2017 c.4](#)

¹¹ Ibid

¹² gweler paragraff 8, y trydydd prif bwynt bwled (ar droed tudalen 6 o Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd \(Ymadael\) 2018: Adroddiad cynnydd](#) o fis Chwefror 2019

defnyddio pwerau cydredol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rydym wedi dod i'r casgliad bod sail dda i'n pryder gwreiddiol ynghylch darparu pwerau cydredol a bod y pryder hwnnw'n parhau o hyd mewn perthynas â'r Bil hwn.

3.3. Cydraddoldeb rhwng pwerau Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru

25. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom fynegi pryder nad oedd gan y Gweinidogion datganoledig yr un pwerau â Gweinidogion y DU mewn perthynas ag addasu cyfraith yr UE a ddargedwir o fewn meysydd datganoledig.

CASGLIADAU

Casgliad 5. Rydym yn falch o nodi bod diwygiadau sy'n bodloni'r pryder hwn bellach wedi'u gwneud i'r Bil, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn hyn o beth.

26. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys dileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gael cydsyniad gan Weinidog y DU cyn arfer y pŵer i wneud rheoliadau a fyddai'n dod i rym cyn y diwrnod ymadael, neu a fyddai'n cynnwys trefniadau cwota. Yn lle hynny, mae'r diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion datganoledig ymgynghori â Gweinidogion y DU.

27. Fodd bynnag, byddai'r diwygiadau yn cynnal yr effaith o gyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad yn y dyfodol, oherwydd y gofyniad i ymgynghori (egllurir hyn ym mharagraffau 19 a 20 uchod).

CASGLIADAU

Casgliad 6. Rydym yn tynnu sylw'r Cynulliad at y ffaith bod y gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidogion y DU cyn gwneud trefniadau cwota (neu reoliadau cyn y diwrnod ymadael) yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad yn y dyfodol, gan na fydd y Cynulliad yn gallu dileu'r ddyletswydd honno yn y dyfodol (o ganlyniad i'r newid i'r setliad datganoli o dan Ddeddf Cymru 2017, fel y disgrifiwyd yn flaenorol).

3.4. Craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil.

28. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom alw i bwerau penodol fod yn destun gweithdrefnau craffu cryfach.

- 29.** Gwnaethom alw i'r pŵer yng nghymal 1 i weithredu Cytundeb Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad.
- 30.** Nid yw'r diwygiadau i'r Bil wedi mynd i'r afael â'n galwad am drefniadau craffu cryfach yn hyn o beth.
- 31.** Gwnaethom alw hefyd i'r pwerau arfaethedig i Weinidogion Cymru o dan gymal 2 o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu broses sifftio yn y Cynulliad.
- 32.** Mae diwygiadau i'r Bil bellach yn gofyn i bwerau cymal 2 fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad (ac yn neddfwriaethau eraill y DU hefyd).

CASGLIADAU

Casgliad 7. Er ein bod yn croesawu atgyfnerthu'r weithdrefn graffu ar gyfer pwerau cymal 2, rydym yn parhau i gredu y dylai pŵer cymal 1 i weithredu Cytundeb Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad.

3. 5. Darpariaeth machlud cymal 2

- 33.** Mae cymal 2 o'r Bil Masnach yn cyfyngu ar yr amser y gellir arfer pwerau o dan y cymal hwnnw.
- 34.** O dan y cymal 2 diwygiedig, mae isadran (7)(a) yn atal gwneud rheoliadau o dan isadran (1) ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd, sy'n dechrau â'r diwrnod ymadael.
- 35.** Fodd bynnag, mae isadran (7)(b) yn caniatáu estyn y cyfnod hwn dros gyfnod hwy. Mae isadran (8) yn cyfyngu hyn i estyniad o hyd at dair blynedd ar y tro, ond gellir arfer y pŵer hwn yn ddiddiwedd.
- 36.** Gall Gweinidogion y Goron estyn y cymal machlud os yw dau Dŷ'r Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft a gyflwynwyd gan Weinidogion y Goron.
- 37.** Ni roddir y pŵer i estyn y cymal machlud i'r Gweinidogion Datganoledig er y byddent yn cael eu cynnwys mewn unrhyw estyniad y gofynnir amdano gan Weinidogion y DU ac a roddir iddynt.

38. Ni fyddai gan y Cynulliad unrhyw rôl ffurfiol o ran craffu ar estyn y pwerau hyn.

39. Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad a ganlyn:

“Mae rheoli'r pwerau o dan gymal machlud cymal 2 y Bil Masnach a roddir i Weinidogion Cymru yn gwestiwn mwy priodol i'r Cynulliad. O ganlyniad, ein dewis ni yw gweld y Bil Masnach yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad y Cynulliad cyn ymestyn y cyfnod o bum mlynedd, i'r graddau y mae'n ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru”¹³

40. Nid yw diwygiadau i'r Bil wedi mynd i'r afael â'r casgliad hwn.

41. Mae Llywodraeth Cymru, yn ei Memorandwm Atodol, yn nodi bod Senedd y DU wedi ymrwymo y bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig cyn estyn y cyfnod pryd y gellir defnyddio pwerau cymal 2 o dan y Bil. Mae'r rhain yn ymrwymadau anstatudol ac felly nid ydynt yn rhwymol yn gyfreithiol.

CASGLIADAU

Casgliad 8. Rydym yn dal i gredu bod rheoli'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan ddarpariaeth machlud cymal 2 o'r Bil Masnach yn gwestiwn mwy priodol i'r Cynulliad. O ganlyniad, ein dewis ni yw gweld y Bil Masnach yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad y Cynulliad cyn estyn y cyfnod o dair blynedd, i'r graddau y bo'n ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru.

3. 6. Diogelu Deddf Llywodraeth Cymru 2016

42. Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys galwad i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn gwahardd y pwerau y mae'n eu darparu i Weinidogion y DU rhag cael eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.¹⁴

43. Ni wnaethpwyd unrhyw ddiwygiad o'r fath.

44. Gellir nodi bod llythyr gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o'r Adran dros Ymadael â'r UE at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn awgrymu mai dim ond Gorchmynion yn y Cyfrin Cyngor o dan adran 109 o

¹³ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Y Bil Masnach: Adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig*, Mawrth 2018

¹⁴ Ibid

Ddeddf Llywodraeth Cymru fydd yn cael eu defnyddio fel arfer i ddiwygio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae Gorchmynion o'r fath yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad, fel rhagofyniad statudol.¹⁵

CASGLIADAU

Casgliad 9. Mae ein safbwynt yn parhau fel a fynegwyd yn ein hadroddiad cyntaf h.y. hoffem weld y Bil yn cael ei ddiwygio i ddiogelu Deddf Llywodraeth Cymru 2016 rhag cael ei ddiwygio gan Weinidogion y DU sy'n defnyddio pwerau o dan y Bil hwn.

¹⁵ Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Llythyr gan Robin Walker at y Cadeirydd ynghylch Bil yr UE (Ymadael), 24 Hydref 2017.

4. Diwygiadau sy'n codi materion newydd i'r Cynulliad

4.1. Diwygiadau i gymal 1 (gweithredu Cytundebau gwreiddiol a diwygiedig Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau)

45. Mae'r diwygiadau hyn yn creu pwerau cydredol sy'n caniatáu i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig wneud is-deddfwriaethau i ymdrin â chanlyniadau newidiadau i restr y DU o gyrff y Llywodraeth a gwmpesir gan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (h.y. awdurdodau sy'n gorfod agor eu trefniadau caffael i aelodau eraill o Sefydliad Masnach y Byd, yn amodol ar drothwyon a rheolau eraill). Pan fo'r newid yn un i awdurdod datganoledig yng Nghymru, mae bron yn sicr y byddai gwneud y newidiadau canlyniadol hyn yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, ac felly mae'r cymal diwygiedig yn golygu bod cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad yn ofynnol.

46. Mae creu'r math hwn o bŵer "tacluso" yn arferol ac, ynndo'i hun, yn ddiniwed. Fodd bynnag, mae'r ffaith ei fod yn bŵer cydredol yn cael effaith gyfyngedig ar gymhwysedd y Cynulliad gan na fyddai'r Cynulliad, yn y dyfodol, yn gallu dileu nac addasu'r pŵer, i'r graddau y caiff ei arfer gan Weinidogion y DU, heb gydsyniad Lywodraeth y DU.

47. Yn yr un modd â'r holl bwerau cydredol, ni fyddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU yn unig yn destun gwaith craffu ffurfiol gan y Cynulliad ac, fel y mae pethau ar hyn o bryd, byddent yn Saesneg yn unig.

48. Rydym eisoes wedi mynegi ein dewis y byddai'n well gennym i'r holl bwerau sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig Cymru gael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn unig.

4.2. Ychwanegu cymal 6 (cyfranogiad y DU yn rhwydwaith rheoleiddio meddyginiaethau Ewrop)

49. Mae'r cymal hwn yn deillio o welliant gwrthbleidiau, a basiwyd gan Dŷ'r Cyffredin. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cymal hwn o fewn cymhwysedd i'r graddau ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru naill ai weithredu unrhyw gytundeb masnach ryngwladol a fyddai'n gwneud i'r DU barhau i gymryd rhan yn rhwydwaith rheoleiddio meddyginiaethau Ewrop, neu i gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol, o fewn cymhwysedd datganoledig, er mwyn

galluogi Llywodraeth y DU i ddod â chytundeb rhyngwladol o'r fath i ben. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymal 6.

50. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, ac eithrio ein bod o'r farn y byddai'r cymal yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y ddau beth a nodwyd; nid ydym yn ystyried eu bod yn ddewisiadau "naill ai neu".

51. Rydym hefyd yn nodi y bydd cymal 6 dim ond yn gymwys os yw'r cytundeb rhyngwladol a wneir yn bodloni'r diffiniad yn y Bil o "gytundeb masnach rhyngwladol", h.y. cytundeb masnach rydd (wedi'i ddiffinio yn ôl Cytundeb Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd ar Dariffau a rheolau Masnach, neu gytundeb rhyngwladol arall sy'n ymwneud yn bennaf â masnach. Felly, nid yw cymal 6 yn gosod unrhyw ddyletswydd ar Lywodraeth y DU i geisio ymrwymo i gytundeb rhyngwladol sy'n canolbwyntio'n unig ar gyfranogiad parhaus y DU yn y rhwydwaith, neu'n gysylltiedig yn bennaf â materion nad ydynt yn ymwneud â masnach.

5. Ein barn ni

52. Nid yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu cynnil â'r ddeddfwriaeth y creffir arni. Yn hytrach, mae'n cynnig dewis syml a deuaidd rhwng rhoi caniatâd ar gyfer y darpariaethau fel y'u drafftiwyd neu eu gwrthod yn llwyr.

53. Mae ein hystyriaeth o'r Bil Masnach yn amlygu'r weithred cydbwyso, ac anfoddhaol yn aml, sy'n ofynnol wrth ystyried cwestiynau sy'n ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol.

54. Ar y naill law, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, mae'n amlwg nas ymdriniwyd â llawer o'r pryderon a godwyd yn ein hadroddiad cyntaf. Mewn o leiaf un achos, mae ein pryderon wedi gwaethygu.

55. Ar y llaw arall, rydym yn llwyr ymwybodol o'r angen am ddeddfwriaeth o'r fath os rydym am gynnig rhyw fath o barhad i fusnesau, gweithwyr a defnyddwyr pan fyddwn yn ymadael â'r UE.

CASGLIADAU

Casgliad 10. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein hasesiad o'r materion cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil Masnach. Rydym yn adrodd er mwyn llywio dadl y Cynulliad o ran a ddylai roi ei gydsyniad deddfwriaethol, y bwriedir ei chynnal ar hyn o bryd ar 12 Mawrth 2019.